

Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru



Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru

- Cynulleidfa** Awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru, cyrff llywodraethu ysgolion, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant, consortia addysg rhanbarthol a Chyngor Celfyddydau Cymru. Bydd gan Gyngor y Gweithlu Addysg ac undebau'r athrawon hefyd ddiddordeb.
- Trosolwg** Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru yw'r ddogfen hon. Sefydlwyd y grŵp gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Ionawr 2015.
- Camau i'w cymryd** Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a chyrff llywodraethu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon i:
Y Gangen Perfformiad Ysgolion
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SMED1@wales.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/music-services-task-and-finish-group-report/?lang=cy

Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd	2
Cyflwyniad a'r cyd-destun	3
Gweledigaeth ar gyfer rôl gwasanaethau cerddoriaeth mewn addysg gerddorol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru	9
Tasgau allweddol ac argymhellion	10
Y cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru	18
Crynodeb o'r argymhellion	19
Cyfeiriadau	21
Atodiad 1: Memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft rhwng awdurdodau lleol	22
Atodiad 2: Cylch gorchwyl grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar wasanaethau cerddoriaeth	24
Atodiad 3: Aelodaeth y grŵp gorchwyl a gorffen	26
Atodiad 4: Rhestr o gyfranwyr ychwanegol	27

Rhagair gan y Cadeirydd

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rôl bresennol gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol, ac yn datgan eu rôl i'r dyfodol, o ran cynorthwyo ysgolion i gyflenwi addysg gerddorol o ansawdd uchel. Ystyri'r gwersi offerynnol a gwersi lleisiol yn rhy aml fel elfen 'ychwanegol', ond mae'r gwersi hynny'n gallu cyfrannu, ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddiwylliant, cydlyniant a hunaniaeth ysgolion,. Gall mynediad at y ddarpariaeth hon gynyddu sgiliau a chyfleoedd bywyd, gan sicrhau bod dysgwyr, yn enwedig y rhai hynny o gefndiroedd dan anfantais, yn cael cyfle i wireddu eu potensial. Rhagwelwn y bydd y profiadau a ddarperir gan wasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol yn dod yn gynyddol bwysig wrth i ysgolion geisio cyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig a ddatblygir mewn ymateb i adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yr Athro Graham Donaldson.

Sefydlwyd y grŵp gorchwyl a gorffen hwn ym mis Ionawr 2014 gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis AC, i ystyried darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth a datblygu cynigion i sicrhau bod modd i awdurdodau lleol barhau i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel i ddysgwyr ledled Cymru, er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd.

Yn benodol, gofynnodd y Gweinidog i ni ystyried y canlynol:

- dulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau
- opsiynau ar gyfer polisiau codi tâl, gyda golwg ar sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru, darpariaeth decach a mynediad i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- opsiynau ar gyfer cyflenwi, adnewyddu, prynu a threfniadau llogi offerynnau cerdd
- y potensial am fwy o waith partneriaeth.

Gofynnwyd i ni ddatblygu cyfres o ddisgwyliadau gofynnol a strwythurau a chylch gorchwyl enghreifftiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth anstatudol ledled Cymru.

Cynhaliodd y grŵp ei waith mewn cyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015, gan gwblhau gwaith ymchwil a gwrando ar gyflwyniadau gan siaradwyr gwadd. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb a rannodd eu harbenigedd a'u gwybodaeth helaeth yn ystod y trafodaethau a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad hwn. Yn benodol, hoffwn longyfarch aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen am eu proffesiynoldeb, eu brwdfrydedd a'u hymroddiad diwyro i ganfod ffyrdd i'r gwasanaethau cerddoriaeth barhau i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith i ddatblygu doniau, sgiliau a lles ein dysgwyr ifanc yng Nghymru. Rhestrir yr aelodau yn Atodiad 3; nodir y cyflwynwyr ac unigolion eraill yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr adolygiad yn Atodiad 4.

Nodwyd yn yr adroddiad hwn yr hyn yr ydym ni yn ei gredu y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, cyrff llywodraethu a rhanddeiliaid eraill ei wneud er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cerddoriaeth o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu er mwyn bodloni anghenion ysgolion a'u dysgwyr.

Karl Napieralla OBE

Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru

Cyflwyniad a'r cyd-destun

Y cefndir

Mae gwasanaethau cerddoriaeth yn cefnogi ac yn ychwanegu at drefniadau i addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion. Gwnânt hynny drwy roi cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu amrywiaeth eang o offerynnau, datblygu eu gallu fel cantorion a pherfformio mewn ensemblau, corau a grwpiau eraill, ar eiddo'r ysgol, yn y gymuned ehangach ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Darperir gwersi offerynnol a lleisiol allgyrsiol gan staff peripatetig, y tu allan i'r gwersi arferol ond yn ystod oriau'r ysgol. Y gwersi offerynnol a lleisiol a ddarperir gan wasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion yw'r haen gyntaf yn strwythur 'pyramid' unigryw Cymru. Mae'n rhoi cefnogaeth i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd i berfformio'n lleol, yn ogystal â llwybrau datblygu i gerddorion ifanc talentog (gweler y diagram ar dudalen 6).

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru. Mae gwahanol fodolau cyflenwi wedi datblygu dros amser, gan olygu bod y ddarpariaeth yn amrywio i adlewyrchu anghenion lleol. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr yn amrywio i raddau sylweddol, ynghyd â'r polisiâu codi tâl a'r mynediad at offerynnau. Dros y degawd diwethaf, mae gwasanaethau cerddoriaeth anstatudol wedi wynebu pwysau cynyddol yn sgil gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus a chyfyngiadau difrifol ar gyllidebau awdurdod lleol.

A hynny'n gefndir, cynullodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y grŵp gorchwyl a gorffen hwn. Rydym yn byw mewn cyfnod o her, ond ceir cyfleoedd hefyd i ail-gyflunio gwasanaethau er mwyn gwneud defnydd gwell o adnoddau presennol, creu mynediad tecach at ddarpariaeth o ansawdd uchel, a sicrhau mynediad i blant a phobl ifanc dan anfantais.

Yn ei adroddiad annibynnol ar *Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (2013), galwodd yr Athro Dai Smith ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ddarparu addysg o ansawdd uchel yn y celfyddydau, a mynediad at y celfyddydau. Croesawodd Llywodraeth Cymru argymhellion yr adroddiad, ac y mae bellach ar ganol eu gweithredu. Mae'r cyhoeddiad diweddar ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau - cynllun gweithredu ar gyfer Cymru*, wedi addo 'cynyddu a gwella cyfleoedd mewn ysgolion ym maes y celfyddydau', a sefydlu 'Ysgolion Creadigol Arweiniol' a rhwydweithiau rhanbarthol newydd ym maes addysg a'r celfyddydau dros y deuddeg mis nesaf. Yng nghydestun y cynllun gweithredu hwn, ynghyd ag adroddiad y Farwnes Kay Andrews ar *Ddiwylliant a thlodi*, ac, yn fwyaf diweddar, adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yr Athro Graham Donaldson ar y cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru, ceir cadarnhad cynyddol ynghylch gwerth y celfyddydau a chreadigrwydd wrth addysgu a datblygu ein pobl ifanc - cydnabyddiaeth bod y celfyddydau'n rhoi profiadau cyfoethog a chyfleoedd yn eu hawl eu hunain, a hefyd o'u gwerth wrth ddatblygu sgiliau ehangach.

'Mae'r celfyddydau mynegiannol yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio, mireinio a chyfleu syniadau, gan ddefnyddio'r meddwl, y dychymyg a'r synhwyrâu mewn ffordd greadigol. . . Wrth ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol, rhaid wrth

ymroddiad, dyfalbarhad a gofal am fanylion, ac mae'r rhain yn alluoedd sy'n fanteisiol ar gyfer dysgu'n gyffredinol.'

Yr Athro Graham Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, 2015*

Mae'r Athro Donaldson yn cynnig y dylid cynnwys y Celfyddydau Mynegiannol yn un o chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm newydd ar gyfer plant a phobl ifanc 3 i 16 oed. Er mwyn darparu'r profiadau hyn, mae'n bosibl y bydd ysgolion yn ceisio cymorth asiantaethau allanol - yn enwedig ysgolion cynradd lle ceir prinder arbenigwyr celfyddydol, neu ysgolion uwchradd sydd am ymdrin â gostyngiad yn niddordeb dysgwyr. Mae gwasanaethau cerddoriaeth eisoes yn cynorthwyo ysgolion i gyflawni eu hymrwymyiadau i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg 2002; os bwriedir cynnwys ystod o wersi offerynnol a lleisiol a chyfleoedd perfformio yn rhan o brofiadau'r cwricwlwm newydd ym maes y Celfyddydau Mynegiannol, gan ddatblygu sgiliau a chynyddu lles dysgwyr, bydd ysgolion yn dibynnu'n gynyddol ar allu gwasanaethau cerddoriaeth a phartneriaid eraill i gyflenwi darpariaeth o ansawdd sy'n gyson uchel ac sy'n addas i'r diben. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth yn croesawu cynigion yr Athro Donaldson. Mae'r Grŵp hefyd o'r farn y gallai, ac y dylai, gweithredu ei argymhellion newid tirlun gwasanaethau cerddoriaeth, o ran cefnogi cerddoriaeth oddi mewn ac oddi allan i'r cwricwlwm mewn ysgolion.

Yn ei adroddiad ar addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon (*Addysgu Athrawon Yfory, 2015*), argymhellodd yr Athro John Furlong y dylai israddedigion BA Addysg dreulio mwy o amser ar eu pwnc arbenigol. Yn y tymor hwy, mae'n bosibl y bydd yr argymhelliad hwnnw'n cyfrannu at sicrhau bod mwy o arbenigwyr y celfyddydau ar gael mewn ysgolion cynradd. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol barhau i gynllunio gan dybio y bydd angen cefnogaeth gerddorol ychwanegol ar lawer o ysgolion - ysgolion cynradd yn bennaf, ymhlith ysgolion eraill.

Beth mae gwasanaethau cerddoriaeth yn ei ddarparu

Er mwyn ategu'r hawl statudol am gerddoriaeth drwy'r cwricwlwm, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru'n rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu offeryn cerdd, canu, perfformio a chyfansoddi. Dyma'r prif weithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaethau cerddoriaeth:

- **Gwersi offerynnol a lleisiol unigol/grŵp**, gyda sicrwydd ansawdd ac wedi'i ddarparu gan staff sydd wedi derbyn hyfforddiant a chymwysterau priodol. Mae'r gwersi hyn, ar safle'r ysgol, ar gyfer dysgwyr sy'n dewis derbyn gwersi allgyrsiol ychwanegol; ar gyfer dysgwyr sy'n astudio cymwysterau perfformio a theori cerddoriaeth (sy'n ennill pwyntiau UCAS ar Radd 6 ac Uwch); a hefyd ar gyfer dysgwyr sy'n astudio cerddoriaeth TGAU neu safon UG/U, lle mae datblygu sgiliau offerynnol/leisiol yn ofynnol (dyfernir 30% o'r marciau am berfformio).
- **Darparu offerynnau** i'w defnyddio oddi mewn neu oddi allan i'r ysgol.
- **Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau perfformio** drwy ensemblau yn yr ysgol, ar lefel leol, sirol, a thraws-sirol, ac mewn digwyddiadau eraill fel cystadlaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, gwyliau cerdd, cyngherddau, gweithdai

a chysiau preswyl sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i greu cerddoriaeth mewn grŵp, sy'n hanfodol er mwyn datblygu a gwneud cynnydd.

- **Cefnogaeth ar gyfer addysgu cerddoriaeth o fewn y cwricwlwm:** mae llawer o ysgolion yn prynu darpariaeth allanol ychwanegol i ategu eu darpariaeth eu hunain, neu os ydynt yn brin o athrawon a chanddynt arbenigedd i gyflwyno cerddoriaeth (mewn ysgolion cynradd yn bennaf, ymhlith ysgolion eraill)

Gwasanaethau cerddoriaeth sy'n darparu'r cyfleoedd cyntaf i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn strwythur 'pyramid' Cymru ar gyfer hyfforddiant lleisiol ac offerynnol. Maent hefyd yn rhoi cefnogaeth barhaus ym mhob haen o'r pyramid. Mae'r pyramid (Diagram 1) yn unigryw i Gymru ac yn gyfrwng i ganfod, meithrin a datblygu doniau, ac mae pob lefel ohono'n cyd-elwa ar y profiadau a gynigir ar lefelau eraill. Yn debyg i chwaraeon, bydd cyfranogiad yn dechrau ar lawr gwlad, drwy gyfleoedd hanfodol i chwarae yn yr ysgol a thrwy 'dimau' lleol, gyda'r performwyr gorau'n symud i fyny drwy'r lefelau rhanbarthol a chenedlaethol ac yn canfod llwybrau tuag at yrfaeodded yn y proffesiwn.

Un o agweddau pwysig y pyramid yw ei fod yn cynorthwyo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a threchgu amddifadedd, gan agor drysau i ddysgwyr dan anfantais a chefnogi datblygiad sgiliau. Llwyddir i gyrraedd brig y pyramid drwy ensemblau lleol a gynhelir gan wasanaethau cerddoriaeth, gyda'r dysgwyr mwyaf dawnus yn gallu codi drwy'r lefelau i berfformio ar lefel genedlaethol. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen hwn yn cymeradwyo'n gryf y dylid parhau â'r ffordd unigryw hon o weithio, a'i chryfhau. Os ceir mwy o bwyslais ar y gallu i fforddio gwersi a chyfarpar cysylltiedig, bydd cyfle cyfartal yn dioddef. Mae strwythur pyramid Cymru yn parhau i fod yn ffordd o liniaru yn erbyn hyn, os oes modd i wasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru barhau i'w borthi, gan sicrhau cyfle cyfartal i'n pobl ifanc yn eu tro. O safbwynt y grŵp, mae'r patrymau tameidiog ac amrywiol sydd wedi esblygu ar draws yr awdurdodau lleol yn cael effaith niweidiol ar gadernid y pyramid. Mae'r adroddiad yn galw am fwy o gydweithio a rhannu arfer gorau, er mwyn cynnal gwerth llwybr y pyramid hwn.




Diagram 1

Gan edrych yn ehangach a thu hwnt i'r ystod oedran 3-19, adlewyrchir hyn gan ddilyniant tebyg o lawr gwlad hyd at addysg uwch ac/neu ymarfer proffesiynol. Gall datblygu rhagoriaeth mewn sgiliau offerynnol hefyd helpu pobl ifanc i symud ymlaen i addysg uwch i astudio pynciau eraill, ee wrth geisio cael lle yn y prifysgolion gorau.




Diagram 2

Beth yw'r darlun presennol o wasanaethau cerddoriaeth ar draws Cymru?

Mae gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru'n amrywio'n helaeth o safbwynt ystod, fforddiadwyedd a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Mae daearyddiaeth a phocedi sylweddol lle ceir lefelau uchel o amddifadedd hefyd yn effeithio ar fynediad dysgwyr. Mae'r gefnogaeth i ysgolion yn amrywio rhwng darpariaeth seiliedig ar y farchnad ar y naill law, cefnogaeth lawn gan yr ALI ar y llaw arall, ac economi gymysg mewn sawl ardal. Mae cost y gwersi a delir gan yr ysgol, neu a drosglwyddir i'r rhieni yn amrywio i raddau sylweddol. Gall ysgolion gyfrannu at y gost a godir gan rieni am wersi i raddau amrywiol.

Ar hyn o bryd, mae 20 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu gwasanaeth cerddoriaeth a arweinir gan yr ALI. Mae deg awdurdod lleol yn gweithredu eu gwasanaeth unigol eu hunain; mae deg yn darparu gwasanaethau cerddoriaeth ar y cyd, gyda hyd at bedwar awdurdod yn rhannu gwasanaethau cerddoriaeth cyfun. Ar hyn o bryd, nid oes gan ddau awdurdod lleol wasanaeth cerddoriaeth a arweinir gan ALI neu a gyd-gysylltir yn ganolog, felly mae'r ysgolion yn prynu gwasanaethau gan ddarparwyr annibynnol yn y farchnad leol, sy'n llywio'r math o ddarpariaeth sydd ar gael. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cerddoriaeth yn derbyn cyllid gan awdurdodau lleol, er y gellir dirprwyo holl gyllid yr ALI, neu gyfran ohono, i'r ysgolion eu hunain. Gall ysgolion hefyd brynu gwasanaethau gan ddarparwyr preifat.

Yn ôl holl wasanaethau cerddoriaeth yr awdurdodau lleol mae eu cyllideb wedi gostwng yn raddol dros y degawd diwethaf. Mae gwasanaethau cerddoriaeth ac ysgolion yn dod yn fwyfwy dibynnol ar gyllid gan rieni ac o ffynonellau eraill er mwyn cynnal y ddarpariaeth. Mae nifer yr offerynnau cerdd sy'n eiddo i ALLau ac sydd ar gael i ddysgwyr yn gostwng, ac ansawdd yr offerynnau hyn yn dirywio. Bydd gan ysgolion weithiau stoc o offerynnau i'w rhoi ar fenthyg i ddysgwyr, ond nid yw hyn yn wir ym mhob achos. Bydd rhai ysgolion yn cymryd rhan mewn cynlluniau cymorth prynu fel bo modd i rieni brynu offerynnau.

Mae gwasanaethau cerddoriaeth yn cynnig cyngor a datblygiad proffesiynol pellach er mwyn gwella darpariaeth cerddoriaeth yn ystod amser y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, ychydig o gymorth y gall ALLau ei gynnig i fodloni anghenion datblygu proffesiynol y rhai sy'n cyflwyno cerddoriaeth.

Yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru

I grynhoi, ystyriwn fod y canlynol ymhlith yr heriau a wynebir wrth barhau i gyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth ansawdd uchel:

- cynnal a datblygu darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth o ansawdd uchel yng nghyd-destun gostyngiadau yng nghyllidebau ysgolion ac ALLau a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd;
- anghysondeb y ddarpariaeth bresennol, anghydraddoldeb cynyddol o ran cyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau;
- rhwystrau daearyddol i wersi arbenigol;
- y cyflenwad o offerynnau arbenigol a'u hansawdd;
- lefelau uchel o amddifadedd;

- y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg;
- dibyniaeth gynyddol ar ddisgyblion a rhieni i dalu costau gwersi.

Nodir isod weledigaeth y grŵp ar gyfer cynyddu'r hawl i dderbyn addysg gerddorol. Bwriedir i'r argymhellion o dan bob tasg allweddol weithredu fel camau cyntaf tuag at wireddu'r weledigaeth hon ac ymdrin â'r heriau sy'n wynebu ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae angen dybryd am strwythur cadarn a chydlynol o ensemblau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a gweithgareddau cerddorol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar ystod o brofiadau o ansawdd uchel ac anelu am ragoriaeth. Bydd angen i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill archwilio cyfleoedd i gydweithio er mwyn creu darpariaeth gydlynol o ansawdd uchel, gan roi ystyriaeth i'w cyd-destunau a'u hanghenion lleol.

Y mae lle creiddiol i ysgolion wrth ddarparu gwersi cerddorol offerynnol a lleisiol, a dylai'r **holl** ysgolion gynnig cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu i chwarae a chanu. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth mewn rhai ysgolion yn dibynnu'n ormodol ar agweddau a blaenoriaethau timau arwain ysgolion. Mae'r grŵp hwn o'r farn y dylid mabwysiadu'r canlynol fel y llinell sylfaen: bod yr holl ysgolion yn cynnig cyfle i ddysgu a meithrin sgiliau offerynnol a lleisiol. Yn y dyfodol, er mwyn diogelu darpariaeth gwasanaethau cerddorol a mynediad at wersi, efallai y bydd angen i ysgolion ailystyried y defnydd a wneir o'u cyllidebau dirprwyedig a'u polisiau er mwyn cefnogi mynediad cynyddol.

Gweledigaeth ar gyfer rôl gwasanaethau cerddoriaeth mewn addysg gerddorol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gred:

- bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb cyffredinol dros gyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth
- bod lle creiddiol i ysgolion wrth ddarparu gwarsi offerynnol a lleisiol, ac y dylid cyflenwi gwasanaethau cerddorol o safon uchel iddynt;
- y dylai bob plentyn ac unigolyn ifanc allu cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau cerddorol a ddylai gynnwys cyfleoedd i gael gwarsi offerynnol a lleisiol yn ychwanegol at yr hyn y mae ganddo hawl i'w dderbyn drwy'r cwricwlwm cenedlaethol;
- y dylai pob plentyn ac unigolyn ifanc, os yw'n dymuno, allu:
 - derbyn gwarsi offerynnol/lleisiol gan arbenigwyr cerddorol;
 - manteisio ar ystod o gyfleoedd perfformio a chyfansoddi y tu hwnt i'r rhai a ddarperir drwy'r cwricwlwm cenedlaethol; a
 - datblygu ei sgiliau cerddorol hyd at y safon uchaf bosib.

Er mwyn hwyluso hyn, dylid:

- cael darpariaeth gerddorol ddiffiniedig o safon uchel sy'n cynnwys ac yn rhagori ar ofnyon statudol mewn lleoliadau addysg;
- parhau i ddarparu a datblygu'r strwythur pyramid ar gyfer cyflenwi gwasanaeth a phartneriaethau cydgysylltiedig er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth ledled Cymru;
- cael gwasanaethau i ddarparu ar gyfer yr ystod amrywiol o allu cerddorol ac i fodloni diddordebau plant a phobl ifanc;
- cael systemau i sicrhau nad yw amgylchiadau ariannol dysgwyr yn eu hatal rhag dysgu offeryn, a gweithredu i annog dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais i gymryd rhan;
- cael cyflenwad addas i'r diben o offerynnau cerddorol i'r dysgwyr.

Ein dyhead yw:

- cael dysgwyr creadigol, hyderus a galluog a chanddynt lefelau uchel o les ac sy'n meddu ar ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy y gellir eu marchnata;
- cael cerddorion fydd yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, fydd yn hyrwyddo ac yn datblygu gweithgareddau cerddorol a diwylliannol eraill o fewn eu cymunedau, ac ar y llwyfan genedlaethol a rhyngwladol, ac a fydd yn chwarae rhan hollbwysig er mwyn meithrin doniau newydd yn ein hysgolion.

Tasgau allweddol ac argymhellion

Tasg allweddol 1: Ystyried dulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau sy'n gyson â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol¹

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, dros amser mae gwasanaethau cerddorol yng Nghymru wedi esblygu mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol rannau o Gymru, ac mewn ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol. O ystyried y cyfyngiadau ar gyllidebau awdurdod lleol, mae angen datblygu darpariaeth decach a chanddi strwythurau newydd a all gyflenwi gwasanaethau cerddorol sy'n addas i fodloni anghenion pobl ifanc heddiw, ac o bosib i gefnogi gofynion cwricwlwm diwygiedig. O hyn allan, mae angen i ni edrych o'r newydd ar wasanaethau a chydweithio i ddatblygu modelau darparu newydd.

Mae llawer o wasanaethau cerddorol yng Nghymru eisoes wedi symud tuag at sefyllfa lle ceir cydweithio rhwng awdurdodau lleol, gydag un gwasanaeth o dan ymbarél ymddiriedolaeth elusennol, a rhai gwasanaethau eraill yn mabwysiadu modelau mwy masnachol. Er hynny, mae lle i newid pethau eto, ac i sicrhau mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau presennol. Gallai awdurdodau lleol ystyried, a dylent ystyried, ystod o fodelau darparu posibl, gyda golwg ar sicrhau ansawdd uchel a gwerth da am arian, gan gynnwys modelau hyd braich a chonsortium/cydweithredol. Drwy weithio mewn modd mwy cydgysylltiedig a thrwy bartneriaethau ag awdurdodau a sefydliadau eraill gellid sicrhau arbedion maint a mwy o gysondeb.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i fodelau amgen fod yn addas i'r ardal leol ac i bartneriaid lleol. Dylid ystyried cysondeb **canlyniadau** fel ysgogiad, ac nid ymagwedd gyffredin o reidrwydd yw'r ffordd orau o gyflawni hyn. Mae ymagwedd 'un ateb i bopeth' yn annhebygol o fodloni gofynion a chyd-destunau lleol/rhanbarthol. Efallai y bydd y trefniadau cyfredol ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol yn cynnig rhai enghreifftiau o ddarpariaeth effeithiol. Mae'r cyfrifoldeb am wasanaethau cerddorol yn parhau i fod yn nwylo awdurdodau lleol, a dylai'r ymagwedd gydweithredol gael ei hysgogi gan ALLau, gan weithio dros ffiniau i greu cyfres o hybiau gwasanaeth cerddorol, a lleihau drwy hynny nifer y gwasanaethau annibynnol sy'n weithredol ar hyn o bryd. I hwyluso'r gwaith a chreu cysylltiadau â'r agwedd gwella ysgolion, gallai'r canolfannau hyn gyd-fynd â'r pedwar consortium addysg rhanbarthol a'r pedwar rhwydwaith rhanbarthol yn y Cynllun Dysgu Creadigol (a sefydlir yn fuan). Grwpiau o awdurdodau lleol fyddai i benderfynu ar y model cyflenwi (er enghraifft, ymddiriedolaeth elusennol, sefydliad hyd braich, consortium, arddull hyb), fel y cyfrwng mwyaf priodol er mwyn cydweithio yn eu rhanbarth.

Gallai'r gwasanaethau, neu'r hybiau rhanbarthol hyn: gyfuno adnoddau'r ALLau er cyfleustra wrth weinyddu; cael eu harwain gan un ALI ym mhob rhanbarth; cael eu datblygu mewn modd tebyg i fodel hyb neu fusnes cydweithredol; cynnig pecyn o wasanaethau y byddai ysgolion yn eu prynu'n uniongyrchol; cynnal cytundebau lefel gwasanaeth ag ALLau/ysgolion; trefnu i swmp-brynu offerynnau (ar gyfer un hyb neu'n genedlaethol) a chydweithio â phartneriaid eraill, gan gynnwys sefydliadau AU/AB ym mhob rhanbarth.

¹ *Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol* (2014), yn nodi'r rhan y mae ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn ei chwarae er mwyn cefnogi addysg yng Nghymru

Byddai model y consortiwm neu'r hyb yn golygu bod sefydliadau yn cydweithio i ddarparu addysg gerddorol, gan gydnabod bod gan yr holl randdeiliaid rôl mewn gwahanol gamau ac mewn gwahanol agweddau ar y ddarpariaeth. Byddai gan yr hyb sefydliad arweiniol, gwasanaeth cerddoriaeth yn ôl pob tebyg. Gallai aelodau'r hyb gynnwys: gwasanaethau cerddoriaeth eraill AU/AB/conservatoire; cyfleusterau blynyddoedd cynnar; grwpiau cerddoriaeth cymunedol; a darparwyr annibynnol.

Byddai angen cyllid gan awdurdodau lleol fel cyllid craidd ar gyfer yr hybiau newydd. Mae'n debygol y ceir toriadau pellach i gyllidebau awdurdod lleol, a gallai'r system hybiau gynnig mwy o hyblygrwydd, arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd.

Bydd angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu dulliau o gyflenwi gwasanaeth sy'n dderbyniol gan yr awdurdodau lleol. Yn rhan o'r gwaith ailfodelu hwn, bydd angen gwneud gwaith i ymdrin â'r amrywiaeth eang yng nghostau rhedeg a chyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth. Ceir cysylltiadau annatod rhwng costau rhedeg a'r costau i ysgolion, a'r costau a drosglwyddir i'r rhieni.

Ochr yn ochr â gwaith i ddatblygu modelau newydd, bydd angen ymagwedd strategol er mwyn sicrhau cydlyniant ac ymdrin â natur dameidiog y gwasanaethau a gyflenwir. Ystyrir hyn o dan Dasg Allweddol 4.

Argymhellion

1. Dylai **awdurdodau lleol** ddarparu manylion eu modelau darparu gwasanaeth cyfredol i CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) erbyn mis Hydref 2015.
2. Erbyn mis Medi 2015, dylai **Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â CLILC a rhanddeiliaid allweddol**, gomisiynu dogfen ganllaw tebyg i 'astudiaeth achos' ar fodelau darparu presennol a modelau cyflenwi posibl i'w hystyried gan lywodraeth leol. Dylid cwblhau'r ddogfen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a'i darparu i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynllunio i'r dyfodol.
3. Dylai **awdurdodau lleol** ystyried yr ystod o fodelau darparu, a dylai CLILC ddarparu'r model a ffafrir gan bob ALI ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth i Lywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2016.

Tasg allweddol 2: Archwilio opsiynau ar gyfer polisiau codi tâl, gyda golwg ar sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru, darpariaeth decach a mynediad i ddysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim

Er mwyn diogelu darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth, a sicrhau bod y ddarpariaeth honno ar gael i bob ysgol yng Nghymru, dylid derbyn ei bod hi'n bosibl y bydd angen i ysgolion/wasanaethau godi tâl am gostau gwersi neu gyfran o'r costau hynny.

Mae llawer yn ystyried y system gyfredol fel loteri cod post, gyda rhai ardaloedd/ysgolion yn codi llawer mwy nag eraill. Mae angen cydgysylltu rhwng ysgolion ac o fewn awdurdodau lleol er mwyn datblygu polisiau mwy cyson ar gyfer codi tâl o fewn ac ar draws ffiniau ALI, ac er mwyn sicrhau bod y costau a drosglwyddir i'r rhieni'n rhoi adlewyrchiad teg o'r gwir gostau. Dylai hyn gynnwys ystyried materion fel a ddylid rhoi gwersi offerynnol un wrth un neu mewn grŵp, y mae llawer o ysgolion yn codi prisiau tebyg amdanynt ond sy'n cynnig profiad gwahanol i'r dysgwr.

Ceir amrywio hefyd yn y dull o anfonebu, gydag ALLau yn anfonebu'r rhieni am y gwersi ar y naill law a'r ysgolion eu hunain yn gwneud hynny ar y llaw arall. Ceir cyswllt annatod rhwng prisiau'r gwersi â chost darparu'r gwasanaeth a maint y cyfraniad gan yr awdurdod lleol/ysgol. Gan hynny, mae prisiau'n amrywio'n helaeth rhwng gwahanol awdurdodau lleol, ac yn aml rhwng ysgolion o fewn yr un awdurdod lleol. Wrth ystyried modelau cyflenwi gwasanaeth a chostau cysylltiedig cyflenwi gwasanaethau, dylid felly anelu i leihau'r anghysondeb mewn ffioedd dysgu.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn cydnabod nad yw'n ymarferol cael polisi ar draws Cymru ar gyfer codi tâl am wasanaethau cerddoriaeth, oherwydd ffactorau fel daearyddiaeth, anghenion lleol ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol; fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion yn eu hardal i ymgymraedd at gyfres gyffredin a chyson o brisiau am wasanaethau cerddoriaeth.

Yr hyn fydd angen ei wneud yn gyntaf, wrth symud tuag at fwy o gysondeb wrth godi tâl, fydd ystyried cost gwasanaethau. Efallai y bydd angen i awdurdodau lleol ystyried cyflogi athrawon/staff peripatetig cerddoriaeth newydd ar delerau ac amodau Llyfr Gwyrdd (a bennir yn lleol) yn hytrach na telerau ac amodau athrawon (a bennir yn genedlaethol) fel ffordd o gael gwared yn raddol â'r gwahaniaeth mewn amodau cyflogaeth a geir ar hyn o bryd. Gallai awdurdodau lleol nad ydynt wedi cynnal adolygiad/dadansoddiad o'r rhai a gyflogir ar delerau ac amodau gwahanol wneud hynny gyda golwg ar drosglwyddo'r holl athrawon/staff peripatetig i'r un telerau ac amodau o fewn ardal yr awdurdod.

Wrth benderfynu ar y ffioedd y dylid eu codi gan rieni, mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymwybyddol o amgylchiadau ariannol rhieni, ac felly y dylai fod. Dylai sicrhau bod gwersi offerynnol cerddorol ar gael i ddysgwyr dan anfantais fod yn flaenoriaeth i ysgolion, ac nid mater o flaenoriaethu cymorthdaliadau i'r rhai sy'n gymwys derbyn prydau ysgol am ddim yn unig yw hyn; mae angen ystyried rhoi cymorth i rieni ar incymau isel nad yw eu plant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim hefyd. Dylid ystyried defnyddio grantiau (er enghraifft y Grant Gwella Addysg, Cymunedau yn Gyntaf, a'r Grant Amddifadedd Disgyblion) fel ffordd o leihau anfantais, yn ogystal â blaenoriaethu adnoddau cyllidebol yr ysgol ei hun.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar *Ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i Gefnogi Gweithgarwch Celfyddydol a Diwylliannol*. Roedd y canllawiau'n cydnabod y gall cynnig cyfleoedd i ddysgwyr o gefndiroedd amddifadus gael profiadau celfyddydol a diwylliannol wella agweddau a phresenoldeb, a helpu i leihau effaith amddifadedd. Dylai ysgolion ystyried y canllawiau hyn, gan gynnwys yr awgrymiadau y gallai ysgolion ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i greu llyfrgell o adnoddau ar gyfer y celfyddydau creadigol a pherfformio, a sicrhau bod y rhain ar gael i ddysgwyr dan anfantais; ac y gall ysgolion ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion fesul achos i helpu dysgwyr unigol o deuluoedd ar incwm isel i ganlyn ffurfiau neilltuol ar y celfyddydau, os mai pwrpas y cyllid yw gwella cyrhaeddiad academaidd yn fwy cyffredinol.

Argymhellion

4. **Gan gydweithio â'u hawdurdodau lleol, dylai ysgolion a chyrrff llywodraethu** fabwysiadu polisiâu clir, teg a chyson ar gyfer codi tâl am wersi cerddorol. Dylai'r polisiâu gael lle amlwg yn nogfennau polisi cyhoeddedig yr ysgolion erbyn mis Medi 2016. Ar gyfer disgyblion sy'n wynebu tlodi, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ddefnyddio grantiau a'u hadnoddau cyllidebol eu hunain hyd yr eithaf i leihau anfantais.
5. Wrth ystyried modelau darparu newydd, dylai **awdurdodau lleol** geisio sicrhau mwy o gysondeb yn eu hardal leol yng nghostau rhedeg y ddarpariaeth gwasanaeth, a sicrhau mwy o gysondeb o ran prisiau yn sgil hynny. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol o fewn y ddwy flynedd nesaf, a dylai gynnwys adolygiad o delerau ac amodau staff y Gwasanaethau Cerddoriaeth, gyda golwg ar sicrhau amodau cyflogaeth teg, cynaliadwy a didwyll.

Tasg allweddol 3: Ystyried opsiynau ar gyfer cyflenwi/adnewyddu/prynu/trefniadau llogi offerynnau cerdd

Mae'r cymorth i logi neu brynu offerynnau cerdd yn amrywio'n helaeth: mae gan rai ysgolion 'lyfrgelloedd benthyg' i annog dysgwyr i fenthyg a dechrau chwarae offeryn cerdd; mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu 'cynllun profi cyn prynu'; mae rhai awdurdodau'n gweithredu cynlluniau cymorth prynu, gan gynnwys cynlluniau lle gellir llogi offerynnau i ddechrau a thynnu'r costau llogi o gyfanswm y pris prynu yn ddiweddarach. Mewn rhai ysgolion ac awdurdodau lleol, mae'r baich gweinyddol o gynnal cynlluniau cymorth prynu wedi achosi i awdurdodau ddirwyn cynlluniau presennol i ben.

Ceir darlun cymysg iawn o ran yr offerynnau a brynir gan ysgolion/awdurdodau lleol, a hefyd o ran y cymhellion i rieni brynu. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru eisoes wedi ystyried sefydlu cynllun prynu 'Take it Away' yn seiliedig ar fodel 'Collectorplan', y cynllun benthyciadau di-log er mwyn prynu gweithiau celf, lle caiff taliadau eu rhannu dros 12 mis. Byddai cynllun cymorth prynu cenedlaethol i ddysgwyr/rhieni yn lliniaru'r baich ar awdurdodau lleol. Ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, byddai cynllun swmp-brynu rhanbarthol/cenedlaethol yn fodd i sicrhau arbedion maint, a gallai system i rannu offerynnau arbenigol rhwng ysgolion, awdurdodau lleol ac ar draws rhanbarthau hefyd gynnig gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau presennol.

Argymhellion

6. O fewn y deuddeg mis nesaf, dylai **CLILC, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill**, gomisiynu cronfa ddata genedlaethol o offerynnau cerdd (yn ôl categori, safon a chyflwr) er mwyn canfod bylchau, a chyda'r bwriad y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio i ailddosbarthu'r offerynnau presennol er budd pawb.
7. O fewn y chwe mis nesaf, dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gydweithio â rhanddeiliaid eraill**, archwilio sut y gall cynllun prynu offeryn unigol 'Take it Away' ychwanegu at gynlluniau cyfredol ar gyfer prynu a llogi offerynnau cerdd.
8. Y dylai **Llywodraeth Cymru gydweithio â rhanddeiliaid allweddol** yn ystod y chwe mis nesaf i ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i brynu offerynnau craidd ar y cyd.
9. Dylai **gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol** gydweithio dros y ddwy flynedd nesaf i ddatblygu cynlluniau rhannu/trwsio/cynnal gyda'r nod o ffurfio darpariaeth gyson ledled Cymru, a dylent hefyd weithio gyda'i gilydd, a chyda rhanddeiliaid eraill i gynnal diwrnod amnest offerynnau cenedlaethol.

Tasg allweddol 4: Ystyried y potensial am fwy o waith partneriaeth

Ar draws Cymru, ceir angen dybryd am strwythur cadarn a chydlynol o ensemblau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a gweithgareddau cerddorol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar ystod o brofiadau o ansawdd uchel ac anelu am ragoriaeth. Ceir eisoes lawer o bartneriaethau gwych â chwmnïau cenedlaethol, sefydliadau celfyddydol ac asiantaethau eraill, ond mae angen gwella ac ehangu'r partneriaethau hyn, a datblygu partneriaethau newydd.

Ceir cysylltiadau da eisoes rhwng gwasanaethau cerddoriaeth ac addysg uwch, er enghraifft yng ngwaith Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, unig gonservatoire Cymru, gyda gwasanaethau cerddoriaeth a rhanddeiliaid eraill ym maes cerddoriaeth yn ne ddwyrain Cymru. Gellid ffurfioli trefniadau rhwng y sector AU a gwasanaethau cerddoriaeth er mwyn datblygu rhaglen lle bydd is-raddedigion yn ymwneud ag ysgolion. Gellid hefyd annog cyfleoedd i fentora rhwng myfyrwyr hŷn ac iau o fewn ysgolion, a gellid datblygu mwy o gydweithio rhwng ysgolion.

Bydd sefydlu pedwar rhwydwaith celfyddydol rhanbarthol o dan y Cynllun Dysgu Creadigol yn cynnig llwyfan arall i wasanaethau cerddoriaeth sicrhau bod pob ysgol yn ymwybodol o'r cyfoeth a gynigir ym maes addysg gerddorol, ac i gael mwy i fanteisio ar wasanaethau. I gydnabod cyfraniad cerddoriaeth i'r economi genedlaethol, dylem hefyd droi at y diwydiannau cerddorol a chreadigol i ddatblygu ymhellach eu rhan hwy yn y gwaith o feithrin doniau newydd a chynnig cyfleoedd am ddatblygiad.

Ceir eisoes gydweithio ar lefel genedlaethol drwy CAGAC (Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru), sefydliad gwasanaethau cerddoriaeth a ariennir gan ALLau, ac mae fforwm ehangach ar addysg gerddorol eisoes i'w gael ar lefel anffurfiol yn Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen grŵp strategol i ddatblygu partneriaethau cydlynol ymhellach ar raddfa ranbarthol a chenedlaethol, gan ddod â phenderfynwyr allweddol o amgylch y bwrdd, gan gynnwys CCAC/CLILC a Llywodraeth Cymru, a chylch gorchwyl clir i symud ymlaen ag argymhellion yr adroddiad hwn.

Argymhellion

10. Dylai **CCAC** adolygu cyfansoddiad y grŵp Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru (CAGAC) o fewn y chwe mis nesaf, gan ddiwygio'r cylch gorchwyl i adlewyrchu blaenoriaethau strategol sy'n dod i'r amlwg.
11. Dylai **Llywodraeth Cymru** gysylltu â Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru o fewn y chwe mis nesaf ac archwilio'r potensial am fwy o waith partneriaeth.

Tasg allweddol 5: Datblygu cyfres o ddisgwyliadau gofynnol, a strwythurau a chylch gorchwyl enghreifftiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru

Mae gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol yn cynorthwyo ysgolion i ddarparu profiadau cerddorol a chreadigol i'w dysgwyr yng nghyd-destun addysg eang a chytbwys. Gan edrych i'r dyfodol, dylai gwasanaethau cerddoriaeth fod â rhan allweddol yn y gwaith o gynorthwyo ysgolion i gyflenwi'r Celfyddydau Mynegiannol yn y cwricwlwm newydd, yn enwedig ysgolion cynradd. Disgwylir y bydd ysgolion da am gynnwys mynediad at wersi offerynnol yn rhan annatod o hawl pob plentyn i dderbyn cerddoriaeth drwy'r cwricwlwm cenedlaethol, ac yn rhan o'u dyletswydd o dan Ddeddf Addysg 2002 i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion. Dylid ystyried mynediad cyfartal at wersi offerynnol a lleisiol allgyrsiol yng nghyd-destun cynyddu cyfleoedd bywyd i bob dysgwr, a chynnig cyfleoedd a datblygiad i rai a allai fod yn fwy galluog a thalentog. Mynegodd y grŵp gorchwyl a gorffen bryder nad oes mesurau perfformiad penodol ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod pob ysgol yn rhoi gwerth ar gyfleoedd creadigol a diwylliannol o ansawdd uchel, ac yn darparu amrywiaeth o'r cyfleoedd hynny.

Trafodir strwythurau cyflenwi gwasanaeth newydd o dan Dasg Allweddol 1. Nodir y disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru ar ffurf y cylch gorchwyl enghreifftiol ar dudalen 18.

Ystyriodd y grŵp hefyd faterion yn gysylltiedig ag ariannu datblygiad addysg gerddorol yng Nghymru yn y dyfodol, a'r potensial am Waddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, a allai ddefnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau i sicrhau cyfalaf a thwf (gan gynnwys ardoll wirfoddol ar docynnau, er enghraifft), er mwyn cynyddu a gwella cyfleoedd i gerddorion ifanc.

Argymhellion

12. Gan ddechrau ar unwaith, **dylai awdurdodau lleol gydweithio ag ysgolion a chyrrff llywodraethu** dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn mabwysiadu'r cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cylch gorchwyl hwn.
13. Dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru** ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, a'r cyfyngiadau ar hynny, er mwyn datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio sgiliau a doniau cerddorol i wireddu eu posibiliadau. Wrth ymchwilio, dylid ystyried y model a'r adnoddau ar gyfer gwaddol o'r fath, gan gynnwys y posibiliad o gyflwyno ardoll wirfoddol ar docynnau, a dylai'r Gweinidogion dderbyn adroddiad ar ddichonoldeb cychwynnol o fewn chwe mis.
14. Dylai **Llywodraeth Cymru** ystyried cynnwys ffocws ar ansawdd ac ystod y ddarpariaeth a'r profiadau diwylliannol a gynigir i ddysgwyr wrth gynnal yr adolygiad nesaf o'r broses gategoreiddio o dan y Model Cenedlaethol, ac wrth datblygu'r broses honno ymhellach.

Tasg Allweddol 6: Datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth i'r holl awdurdodau lleol gytuno arno

Gall awdurdodau lleol bennu natur a model darparu'r gwasanaeth cerddoriaeth yn eu hardaloedd eu hunain, sy'n ystyriol o'u cyd-destunau, eu hamgylchiadau a'u nodweddion eu hunain. Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gwella ysgolion ledled Cymru yn cynnig esiamplau lle datblygwyd modelau cydweithredol er mwyn darparu mewn modd effeithiol.

Wrth ystyried y dasg allweddol hon, cydnabu'r grŵp gorchwyl a gorffen mai'r grwpiau o ddau neu fwy o awdurdodau lleol fydd i benderfynu ynghylch natur y cydweithio er mwyn cyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth. Rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn awyddus i sefydlu cyd-ddealltwriaeth ynghylch safonau arfer da, a hefyd i gytuno ar ffiniau'r gwasanaeth a ddarperir (er enghraifft, ar gyfer rhannu offerynnau cerdd). Mae enghraifft o femorandwm cyd-ddealltwriaeth i'w ystyried gan awdurdodau lleol sy'n dymuno cydweithio wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

Argymhelliad

15. Gan ddechrau ar unwaith, lle bo'n briodol, dylai **awdurdodau lleol** fynd ati ar y cyd i weithio ac adeiladu modelau gwasanaeth, gan anelu i sicrhau eu bod yn esgor ar ddarpariaeth o ansawdd uchel sy'n cynnig gwerth am arian. Dylid defnyddio memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng dau neu fwy o awdurdodau i adlewyrchu modelau cyflenwi/gwasanaeth, arferion gwaith a threfniadau partneriaeth cyfredol. Yn ogystal â hyn, dylid rhannu memoranda o'r fath ag awdurdodau lleol eraill fel enghreifftiau o gydweithio ac arfer da.

Y cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru

Dylai gwasanaethau cerddoriaeth gynnig darpariaeth i bob ysgol yn eu hardal fel bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael cyfle i ddysgu chwarae a chanu. Gyda chefnogaeth gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol, mae gan ysgolion le creiddiol yn narpariaeth gwersi offerynnol a lleisiol,

Mewn perthynas â gwersi offerynnol a lleisiol, disgwylir i wasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol:

- fodloni anghenion ysgolion o ran ystod ac ansawdd y gwasanaeth;
- bodloni'r angen ymhlith y dysgwyr am wersi grŵp/unigol fforddiadwy o ansawdd uchel ar ystod o offerynnau, wedi'u darparu gan staff hyfforddedig;
- cynorthwyo adrannau cerddoriaeth ysgolion i gynnig darpariaeth allgyrsiol o ansawdd uchel, gan gynnwys cyfleoedd i berfformio mewn ensemble, yn ogystal â chyfleoedd eraill i berfformio.
- cynnig cyfleoedd i symud ymlaen, mynediad at gyngor a chefnogaeth i ddysgwyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau;
- cefnogi dysgwyr wrth baratoi am arholiadau cerddoriaeth;
- gweithio gyda'r ysgolion i ddatblygu polisiau teg a chyson ar gyfer codi tâl;
- rhoi lle canolog i waith partneriaeth wrth weithredu, a mynd ati'n weithredol i ddatblygu partneriaethau newydd;
- cynnig darpariaeth gyson ar draws rhanbarth, sy'n cydffinio a rhanbarthau'r consortia addysg rhanbarthol;
- sefydlu systemau sicrhau ansawdd, ynghyd â gofyniad i ddatblygu cyflog ac amodau cyson;
- darparu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod am y newidiadau diweddaraf o ran y polisi a'r arfer cyfredol ym maes addysg.
- gweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau'r opsiynau mwyaf effeithiol o ran cost wrth gyflenwi offerynnau cerdd;
- cydweithio ar draws ac oddi mewn i ranbarthau i rannu adnoddau cerddoriaeth brintiedig; a
- lle bo'n berthnasol, cynnwys y defnydd o dechnoleg ddigidol i wella canlyniadau gwersi.

Yn ogystal â hyn, ac yn enwedig yng nghyd-destun newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol yn y dyfodol, gellid disgwyl i wasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol:

- Gynorthwyo athrawon dosbarth cyffredinol ac ymarferwyr anarbenigol i gyflenwi gofynion y cwricwlwm cenedlaethol i bob dysgwr, gan roi ystyriaeth dda i arfer gorau a chanfyddiadau ymchwil er mwyn gwneud efnydd effeithiol o'u sgiliau a'u harbenigedd eu hunain;
- Cynorthwyo athrawon sy'n newydd i'r proffesiwn i ennyn hyder wrth gyflwyno gwersi cerddoriaeth i'w dosbarthiadau;
- Cynorthwyo ysgolion i hyrwyddo canu fel ysgol gyfan a pherfformiadau cerddorol o safon.

Crynodeb o'r argymhellion

1. Dylai **awdurdodau lleol** ddarparu manylion eu modelau darparu gwasanaeth cyfredol i CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) erbyn mis Hydref 2015.
2. Erbyn mis Medi 2015, dylai **Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â CLILC a rhanddeiliaid allweddol**, gomisiynu dogfen ganllaw tebyg i 'astudiaeth achos' ar fodelau darparu presennol a modelau darparu posibl i'w hystyried gan lywodraeth leol. Dylid cwblhau'r ddogfen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a'i darparu i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynllunio i'r dyfodol.
3. Dylai **awdurdodau lleol** ystyried yr ystod o fodelau darparu, a dylai CLILC ddarparu'r model a ffafrir gan bob ALI ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth i Lywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2016.
4. **Gan gydweithio â'u hawdurdodau lleol**, dylai **ysgolion a chyrrff llywodraethu** fabwysiadu polisiau clir, teg a chyson ar gyfer codi tâl am wersi cerddorol. Dylai'r polisiau gael lle amlwg yn nogfennau polisi cyhoeddedig yr ysgolion erbyn mis Medi 2016. Ar gyfer disgyblion sy'n wynebu tlodi, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ddefnyddio grantiau a'u hadnoddau cyllidebol eu hunain hyd yr eithaf i leihau anfantais.
5. Wrth ystyried modelau darparu newydd, dylai **awdurdodau lleol** geisio sicrhau mwy o gysondeb yn eu hardal leol yng nghostau rhedeg y ddarpariaeth gwasanaeth, a sicrhau mwy o gysondeb o ran prisiau yn sgil hynny. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol o fewn y ddwy flynedd nesaf, a dylai gynnwys adolygiad o delerau ac amodau staff y Gwasanaethau Cerddoriaeth, gyda golwg ar sicrhau amodau cyflogaeth teg, cynaliadwy a didwyll.
6. O fewn y deuddeg mis nesaf, dylai **CLILC, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill**, gomisiynu cronfa ddata genedlaethol o offerynnau cerdd (yn ôl categori, safon a chyflwr) er mwyn canfod bylchau, a chyda'r bwriad y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio i ailddosbarthu'r offerynnau presennol er budd pawb.
7. O fewn y chwe mis nesaf, dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gydweithio â rhanddeiliaid eraill**, archwilio sut y gall cynllun prynu offeryn unigol 'Take it Away' ychwanegu at gynlluniau cyfredol ar gyfer prynu a llogi offerynnau cerdd.
8. Dylai **Llywodraeth Cymru gydweithio â rhanddeiliaid allweddol** yn ystod y chwe mis nesaf i ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i brynu offerynnau craidd ar y cyd.
9. Dylai **gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol** gydweithio dros y ddwy flynedd nesaf i ddatblygu cynlluniau rhannu/trwsio/cynnal ar y cyd gyda'r nod o ffurfio darpariaeth gyson ledled Cymru. Dylent hefyd weithio gyda'i gilydd, a chyda rhanddeiliaid eraill, i gynnal diwrnod amnest offerynnau cenedlaethol.

10. Dylai **CCAC** adolygu cyfansoddiad y grŵp penaethiaid gwasanaethau cerddorol (CAGAC) o fewn y chwe mis nesaf, a diwygio'r cylch gorchwyl i adlewyrchu blaenoriaethau strategol sy'n dod i'r amlwg.
11. Dylai **Llywodraeth Cymru** gysylltu â Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru o fewn y chwe mis nesaf ac archwilio'r potensial am fwy o waith partneriaeth.
12. Gan ddechrau ar unwaith, dylai **awdurdodau lleol gydweithio ag ysgolion a chyrff llywodraethu** dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn mabwysiadu'r cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cylch gorchwyl hwn.
13. Dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru** ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, a'r cyfyngiadau ar hynny, er mwyn datblygu cyfleoedd i bobl ifanc wireddu eu posibiladau drwy sgiliau a doniau cerddorol. Wrth ymchwilio, dylid ystyried y model a'r adnoddau ar gyfer gwaddol o'r fath, gan gynnwys y posibiliad o gyflwyno ardoll wirfoddol ar docynnau, a dylai'r Gweinidogion dderbyn adroddiad ar ddichonoldeb cychwynnol o fewn chwe mis.
14. Dylai **Llywodraeth Cymru** ystyried cynnwys ffocws ar ansawdd ac ystod y ddarpariaeth a'r profiadau diwylliannol a gynigir i ddysgwyr wrth gynnal yr adolygiad nesaf o'r broses gategoreiddio o dan y Model Cenedlaethol, ac wrth ddatblygu'r broses honno ymhellach.
15. Gan ddechrau ar unwaith lle bo'n briodol, dylai **awdurdodau lleol** fynd ati ar y cyd i weithio ac adeiladu modelau gwasanaeth, gan anelu i sicrhau eu bod esgor ar ddarpariaeth o safon uchel sy'n cynnig gwerth am arian. Dylid defnyddio memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng dau neu fwy o awdurdodau i adlewyrchu modelau cyflenwi/gwasanaeth, arferion gwaith a threfniadau partneriaeth cyfredol. Yn ogystal â hyn, dylid rhannu memoranda o'r fath ag awdurdodau lleol eraill fel enghrefftiau o gydweithio ac arfer da.

Cyfeiriadau

Adroddiad annibynnol i Lywodraeth Cymru ar Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru, Yr Athro Dai Smith, 2013

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/arts-in-education-review/?skip=1&lang=cy>

Addysgu Athrawon Yfory, Yr Athro John Furlong, 2015

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy>

Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i Gefnogi Gweithgarwch Celfyddydol a Diwylliannol, Llywodraeth Cymru, 2015

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150224-pdg-arts-cy.pdf>

Diwylliant a thlodi: defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Y Farwnes Kay Andrews, 2014

<http://gov.wales/topics/cultureandsport/tackling-poverty-through-culture/?skip=1&lang=cy>

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, Yr Athro Graham Donaldson, 2015

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/?skip=1&lang=cy>

Dysgu creadigol trwy'r celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, 2015

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/creative-learning-through-the-arts/?skip=1&lang=cy>

Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol yng Nghymru, 2014

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?skip=1&lang=cy>

Atodiad 1: Memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft rhwng awdurdodau lleol

Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r agenda gyffredin rhwng dau neu fwy o awdurdodau lleol i wella a chynnal y gwasanaethau cerddoriaeth a ddarperir ganddynt i ysgolion, ac yn adeiladu ar arfer cyffredol.

Mae adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru, yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y memorandwm hwn.

Egwyddorion / pwrpas

Mae'r Memorandwm hwn (nad yw'n gyfreithiol-rwym) yn disgrifio ymrwymiad awdurdodau lleol i:

- barhau i gynnal a gwella darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth o ansawdd uchel er mwyn bodloni anghenion dysgwyr;
- cydweithio ag awdurdodau eraill er mwyn ystyried dulliau cyflenwi amgen a, lle bo angen, cyd-adeiladu modelau darparu gwasanaeth newydd, er mwyn creu strwythurau cadarn i gyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol.

Y Cefndir

- O dan Adran 99 o Ddeddf Addysg 2002, mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pob ysgol a gynhelir yn darparu cwricwlwm cytbwys â sail eang sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a'r gymdeithas, ac sy'n paratoi disgyblion am gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.
- Mae cerddoriaeth yn bwnc o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 14 oed, ac yn ddewisol wedi hynny. Mae darparu cerddoriaeth fel pwnc felly'n gyfrifoldeb statudol o fewn addysg awdurdod lleol.
- Mae gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol yn cynorthwyo adrannau cerddoriaeth mewn ysgolion i gynnig darpariaeth allgyrsiol anstatudol, gan gynnwys gwersi offerynnol a chyfleoedd i berfformio. Mae gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol hefyd yn cynorthwyo athrawon dosbarth cyffredinol ac ymarferwyr anarbenigol i gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol statudol (mewn ysgolion cynradd yn bennaf, ymhlith ysgolion eraill).

Cydweithio i gyd-adeiladu modelau darparu gwasanaeth

- Er mwyn datblygu modelau darparu newydd, mae'r awdurdodau lleol sydd yn rhan o'r memorandwm hwn yn cytuno i gydweithio i sicrhau mwy o gysondeb o ran costau rhedeg gwasanaethau, gyda'r nod o sicrhau mwy o gysondeb yn y gost i'r ysgolion a'r prisiau a godir gan rieni.
- Wrth adeiladu modelau darparu newydd, mae partneriaid awdurdod lleol yn cytuno i geisio ychwanegu gwerth drwy feithrin partneriaethau presennol a datblygu partneriaethau newydd gyda phartneriaid eraill lleol/rhanbarthol/cenedlaethol yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Cydweithio i wella gwasanaethau

- Bydd awdurdodau lleol sy'n llofnodi'r memorandwm hwn yn gweithio mewn partneriaeth tuag at fabwysiadu'r cylch gorchwyl ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth a nodir yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth. Er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau, bydd awdurdodau lleol hefyd yn canlyn argymhellion adolygiad tair blynedd Estyn o *Arfer gorau wrth ddysgu ac addysgu yn y celfyddydau creadigol*.
- Bydd awdurdodau lleol partner yn gweithio gyda'u hysgolion i ddatblygu polisiau clir, teg a chyson ar gyfer codi tâl am wersi offerynnol. Ar gyfer disgyblion sy'n wynebu tlodi, bydd awdurdodau lleol yn manteisio i'r eithaf ar grantiau er mwyn lleihau anfantais.
- Ar ôl cwblhau'r gronfa ddata o offerynnau cerdd a gomisiynir gan CLILC, bydd yr awdurdodau lleol a'u hysgolion yn cydweithio i aiddosbarthu offerynnau er budd pawb.
- Gan weithio mewn partneriaeth, bydd awdurdodau lleol yn annog eu gwasanaethau cerddoriaeth i gydweithio i ddatblygu cynlluniau ar gyfer prynu a chynnal ar y cyd, gyda golwg ar greu darpariaeth fwy cyson ledled Cymru.

Adolygiad o gynnydd rhwng y partïon

- Yn dilyn y gwaith cychwynnol i gyd-adeiladu a gwella'r gwasanaeth, bydd y memorandwm hwn yn destun adolygiad blynyddol, gyda'r nod o barhau i gydweithio ac ymrwymo i gyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth o ansawdd uchel.

Atodiad 2: Cylch gorchwyl grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar wasanaethau cerddoriaeth

1. Pwrpas

- Datblygu canllawiau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru, sy'n dderbyniol gan awdurdodau lleol a'r byd addysg.

2. Cefndir

- Llywodraeth leol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth i ysgolion Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw penderfynu faint o gymorth y maent yn dymuno ei roi i wasanaethau cerddoriaeth yn eu hardal, yn seiliedig ar eu dealltwriaeth eu hunain o anghenion a blaenoriaethau lleol. Ceir cyllid o fewn y grant cynnal refeniw gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau.
- Mae darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth yn amrywio'n helaeth ar hyn o bryd, o ran ei hystod a'i fforddiadwyedd a'r nifer sy'n manteisio arni.
- Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gofyn am gael sefydlu gweithgor i ystyried sut y gellir sicrhau darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth well a mwy cyson yng Nghymru, ar adeg lle ceir cyfyngiadau difrifol ar gyllidebau.
- Yn adroddiad Y Celfyddydau mewn Addysg (<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/arts-in-education-review/?skip=1&lang=cy>), cynigiwyd y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i 'sicrhau nad yw'r cyfle i ddysgu canu offeryn yn cael ei gyfyngu i blant rhieni sy'n gallu fforddio talu am wersi, ond hefyd i sicrhau ein bod yn gallu darganfod a meithrin cerddorion ifanc talentog, ble bynnag y bônt yn byw yng Nghymru'.

3. Aelodaeth

- Bydd gweithgor o oddeutu 12 yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:
 - ALLau (y rhai hynny sy'n gyfrifol am Wasanaethau Cerddoriaeth)
 - CCAC
 - Consortia (lefel pennaeth gwasanaeth)
 - Ysgolion
 - CCC
 - Estyn

4. Cyfarfodydd a threfniadau adrodd

- Bydd y grŵp yn cyfarfod ar oddeutu 6 achlysur dros gyfnod o 4 mis. Adroddir wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau am gynigion y grŵp. Rhagwelir mai ffrwyth y grŵp fydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth i'w gytuno ag ALLau a'i rannu â chonsortia. Dyma ddyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:
 - 19^{eg} Ionawr 2015

- 30^{ain} Ionawr 2015
- 12^{fed} Chwefror 2015
- 11^{eg} Mawrth 2015
- 25^{ain} Mawrth 2015
- 15^{fed} Ebrill 2015

5. Amcanion a thasgau allweddol

- Bydd y gweithgor yn adolygu systemau presennol ac yn cynnig argymhellion ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth y mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol yn cyd-gytuno â hwy.
- Tasgau allweddol:
 - Ystyried dulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau sy'n gyson â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.
 - Archwilio opsiynau ar gyfer polisiâu codi tâl, gyda golwg ar sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru, darpariaeth decach a mynediad i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.
 - Ystyried opsiynau ar gyfer cyflenwi, adnewyddu, prynu a threfniadau llogi offerynau cerdd.
 - Ystyried y potensial am fwy o waith partneriaeth
 - Datblygu cyfres o ddisgwyliadau gofynnol, a strwythurau a chylch gorchwyl enghreifftiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth anstatudol ledled Cymru.
 - Datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft i'r holl awdurdodau lleol gytuno arno

6. Cefnogaeth

- Darperir cefnogaeth ysgrifenyddol gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Bydd papurau trafod yn cael eu cylchredeg ymhlith aelodau'r grŵp cyn bob cyfarfod.

Atodiad 3: Aelodaeth y grŵp gorchwyl a gorffen

Y Cadeirydd: Karl Napieralla, Uwch Ymgynghorydd Herio a Chefnogi, Llywodraeth Cymru

David Alston, Cyfarwyddwr y Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru

Fiona Arnison, Estyn

Steve Cushen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Phil Emanuel, Cyn Reolwr Gwasanaethau Cerddoriaeth Gorllewin Morgannwg

Emyr Wynne Jones, Ymgynghorydd, Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru

Rachel Kilby, Cadeirydd CAGAC, Pennaeth Gwasanaeth Cerddoriaeth Rhondda

Cynon Taf

Chris Llewellyn, Cydgysylltydd Cerddoriaeth Sirol, Gwasanaethau Cerddoriaeth Sir Benfro

Mari Pritchard, Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Cerddoriaeth William Mathias

Alun Williams, Pennaeth Gwella a Chynhwysiant Ysgolion, Blaenau Gwent

Atodiad 4: Rhestr o gyfranwyr ychwanegol

Mae'r unigolion canlynol naill ai wedi cyfrannu at drafodaethau'r grŵp neu wedi cyfrannu gwybodaeth/sylwadau i'r Cadeirydd:

Pierre Bernhard-Grout, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Hilary Boulding, Pennaeth, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Nick Capaldi, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru

Pauline Crossley, Prif Reolwr, Celfyddydau Ieuencid Cenedlaethol Cymru

Dai Davies, hyrwyddwr cerddoriaeth a chyn-aelod o Banel Diwydiannau Creadigol

Llywodraeth Cymru

Sonja Groves, Ysgol Iau Aberdaugleddau

Neil Hawkins, Pennaeth y Celfyddydau Perfformio, Ysgol Gyfun y Coed Duon

Suzanne Hay, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Viv John, Arweinydd Cerddoriaeth TAR Uwchradd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Chris Llewelyn, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Sarah Owens, Canolfan Cydweithredol Cymru

Eric Phillips, Pennaeth Cerdd, Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd

Wyn Thomas, Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Bangor